

Rhif Cwmni 03109524

Rhif Elusen 1071234

DEDDF CWMNIAU 2006

ERTHYGLAU CYMDEITHASU

**ADDYSG OEDOLION CYMRU | ADULT LEARNING WALES
("yr Elusen")**

Corfforwyd ar 3 Hydref 1995

Mabwysiadwyd Erthyglau newydd ar 26 Mawrth 2020



Deddf Cwmniau 2006

Cwmni Cyfyngedig trwy Warant
Heb Gyfalaf Cyfranddaliadau

Erthyglau Cymdeithasu Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales Rhif cwmni 03109524

[I'w darllen ar y cyd â Gorchmynion Sefydlog, Rheolau a Gweithdrefnau'r Elusen (y 'Gorchmynion Sefydlog')]

Rhaglith

Ffurfiwyd yr Elusen bresennol yn 2015 yn sgil cyfuno WEA Cymru (Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Cymru), rhif cwmni 03109524, a Choleg Cymunedol YMCA Cymru Cyf., rhif cwmni 05105739.

Crëwyd y cyntaf o'r sefydliadau yn 2014 wrth i WEA De Cymru a WEA Coleg Harlech (Gogledd Cymru) ddod at ei gilydd. Agorodd Coleg Harlech ym 1927 i alluogi'r rhai a oedd am ddychwelyd i'w galwedigaethau blaenorol yn hytrach na symud ymlaen i addysg uwch gael cyfle i astudio'n barhaus. Dywedir ei fod wedi newid bywydau miloedd o bobl yn ogystal â rhoi i Brydain, a Chymru yn arbennig, rhai o'i gweithwyr cymdeithasol, athrawon, gwleidyddion, swyddogion undeb llafur ac entrepreneuriaid cymdeithasol ymroddedig a weithiodd fel burum mewn cymdeithas, gan helpu i godi ei delfrydau a'i dyheadau. Caeodd ei ddrysau fel sefydliad addysgol yn 2017, ar ôl 90 mlynedd o wasanaeth.

Dechreuodd WEA yng Nghymru ugain mlynedd cyn Coleg Harlech fel sefydliad cymunedol. Mae hanes y ddau sefydliad yn cydblethu ac roedd ganddynt ethos cyffredin, wedi'i seilio ar werthoedd democratiaeth a chyfiawnder cymdeithasol.

YMCA yw un o'r mudiadau hynaf a mwyaf i bobl ifanc yn y byd. Fe'i cychwynnwyd ym 1844, ac mae bellach yn gweithredu mewn 120 o wledydd ac yn cyrraedd 64 miliwn o bobl. Mae YMCA yn gweithio i rymuso pobl ifanc – o blentynodod i oedolaeth ifanc – gyda'r cymorth y mae arnynt ei angen i gyrraedd eu potensial a chreu dyfodol gwell i bawb. Sefydlwyd Coleg Cymunedol YMCA Cymru Cyf. ym 1993 fel adran o Gyngor Cenedlaethol y YMCAau yng Nghymru. Trosglwyddwyd statws dynodedig o'r Cyngor Cenedlaethol i greu sefydliad cwbl ymreolaethol yn 2004, o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Felly, gwnaeth WEA Cymru, ei sefydliadau rhagflaenol a Choleg Cymunedol YMCA Cymru Cyf. gyfraniadau nodedig tuag at addysg oedolion yng Nghymru am flynyddoedd lawer cyn iddynt uno.

EGWYDDORION

Bydd yr **Elusen** yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- (a) bydd yn gweithredu yn ôl egwyddorion democrataidd o ran ei threfniadaeth a'i hymarfer, trwy gyfranogiad ei **haelodau**;
- (b) bydd yn darparu ar gyfer anghenion addysgol pobl ifanc ac oedolion i ymwneud â dysgu gydol oes, yn enwedig y rhai sydd dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd;
- (c) bydd yn darparu rhaglenni addysgol i sefydliadau priodol sy'n ymwneud ag anghenion cyfunol pobl ifanc ac oedolion yn y gymuned ac yn y gweithle;
- (ch) bydd yn gweithio tuag at sicrhau bod cyfle i bob person ifanc ac oedolyn gael yr addysg sy'n angenrheidiol er mwyn iddo ddatblygu'n llawn fel unigolyn ac yn gymdeithasol;
- (d) bydd yn cynnig cyrsiau i bobl ifanc ac oedolion a fydd yn ehangu eu dealltwriaeth o'r byd a'r gymdeithas y maent yn byw ynddynt, a bydd yn annog dinasyddiaeth weithgar;
- (dd) bydd yn cynnal ei weithgareddau gan roi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, ac amrywiaeth cymunedau yng Nghymru; a
- (e) bydd dulliau gwaith a gweithrediad yr **Elusen**, gan gynnwys polisïau ac arferion cyflogaeth, yn anwahaniaethol o ran nodweddion gwarchoddedig – oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol – ac o ran materion yn ymwneud ag iaith, ac yn amhleidiol o ran gwleidyddiaeth ac yn anenwadol o ran crefydd.

1. ERTHYGLAU ENGHREIFFTIOL

Ni fydd yr Erthyglau Enghreifftiol ar gyfer Cwmnïau Preifat Cyfyngedig trwy Warant a amlinellir yn atodlen 2 Rheoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008 yn berthnasol i'r **Elusen**.

2. AMCANION

Amcanion yr Elusen yw hyrwyddo addysg, yn enwedig i bobl ifanc ac oedolion, o fewn yr ardal buddiant.

3. PWERAU

Mae gan yr **Elusen** y pwerau canlynol, y ceir eu harfer wrth hyrwyddo'r **Amcanion** yn unig:

- 3.1 darparu dosbarthiadau a chyfleusterau addysgol eraill, naill ai'n uniongyrchol neu ar y cyd â chyrff addysgol a sefydliadau eraill.
- 3.2 cyhoeddi llenyddiaeth a chynhyrchu neu gynorthwyo i gynhyrchu a hyrwyddo ffilmiau, fideos neu recordiadau radio neu dâp neu gyfryngau digidol, electronig neu gymdeithasol eraill.
- 3.3 defnyddio llenyddiaeth a chyfryngau ac unrhyw ddulliau priodol a chyfreithiol eraill i ysgogi diddordeb yn addysg pobl ifanc ac oedolion.
- 3.4 ysgogi a chydlynu gweithgareddau addysgol cyrff sy'n ymwneud ag anghenion cyfunol pobl ifanc ac oedolion yn y gymuned a'r gweithle.
- 3.5 rhoi gwybod i'r cyhoedd a llunwyr polisi yng Nghymru a thu hwnt am faterion addysgol trwy fynegi anghenion pobl ifanc ac oedolion mewn cynrychiolaethau i Lywodraeth Cymru, awdurdodau cyhoeddus, a chyrff eraill sy'n ymwneud ag addysg.
- 3.6 meithrin cysylltiadau agos â sefydliadau rhanbarthol, dosbarth a lleol, fel awdurdodau addysg lleol, prifysgolion, grwpiau cymunedol, cyrff y sector, cyflogwyr ac undebau llafur.
- 3.7 codi arian trwy unrhyw fodd a derbyn grantiau a rhoddion a chodi tâl am wasanaethau a ddarperir gan yr **Elusen** (ond nid trwy **fasnachu trethadwy**).
- 3.8 cael, adeiladu, newid, cynnal, gwella a rheoli tir ac adeiladau, ac arwystlo a gwaredu unrhyw dir ac adeiladau o'r fath ar yr amod y ceir unrhyw ganiatâd sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw waredu neu arwystl o dan y **Ddeddf Elusennau**.
- 3.9 cyflogi'r **Staff** sy'n angenrheidiol i alluogi'r **Elusen** i gyflawni ei **Hamcanion** a gwneud unrhyw ddarpariaeth resymol ac angenrheidiol i dalu pensiynau a blwydd-daliadau i **Staff** a'u dibynyddion ar yr amod (heblaw yn achos **Llywodraethwyr a Etholwyd** gan **Staff** o'u plith, y cyfeirir atynt yn erthygl 10.2) nad yw'r **Elusen** yn cyflogi unrhyw unigolyn sy'n **Llywodraethwr** am fwy na phedair awr fesul wythnos galendr.

- 3.10 prynu, hurio neu gael fel arall offer, cerbydau ac eitemau eraill sy'n ofynnol ac ymdrin ag unrhyw eiddo o'r fath neu ei waredu fel sy'n ofynnol.
- 3.11 dodrefnu unrhyw adeiladau a ddefnyddir gan yr **Elusen** gydag unrhyw osodiadau a ffitiadau sy'n ofynnol.
- 3.12 agor a rheoli cyfrifon banc a defnyddio cyfleusterau bancio eraill.
- 3.13 benthycu neu godi arian ar ba delerau neu amodau bynnag yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, gan gynnwys gwarant, ar yr amod y cafwyd unrhyw gydsyniadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
- 3.14 trefnu unrhyw yswiriant y mae'r **Elusen** yn ystyried ei fod yn angenrheidiol mewn perthynas ag unrhyw fater y mae gan yr **Elusen** fuddiant yswiriadwy ynddo, am y cyfryw swm ag yr ystyrir ei fod yn briodol.
- 3.15 darparu a thalu am **yswiriant indemniad** ar gyfer y **Llywodraethwyr**.
- 3.16 indemnio'r Llywodraethwyr mewn perthynas â'u hatebolrwydd fel cyfarwyddwyr yr **Elusen**.
- 3.17 sefydlu a chefnogi unrhyw ymddiriedolaethau, cymdeithasau neu sefydliadau elusenol sy'n cael eu ffurfio ar gyfer unrhyw un neu bob un o'r **Amcanion** a gweithredu fel **ymddiriedolwr elusen**.
- 3.18 ffurfio cysylltiadau a derbyn cysylltiadau â chyrrff eraill ag amcanion sy'n debyg neu'n unfath â rhai'r **Elusen**, ac yn enwedig ffurfio cysylltiadau a derbyn cysylltiadau â Chymdeithasau Addysgol y Gweithwyr a sefydliadau YMCA yn y Deyrnas Unedig a sefydliadau tebyg dramor.
- 3.19 cydweithio a meithrin cysylltiadau ag elusennau eraill, sefydliadau ac awdurdodau statudol sy'n gweithredu i hyrwyddo'r **Amcanion** neu ddibenion elusenol tebyg ac sy'n gweithredu yn unol ag egwyddorion tebyg, a chyfnewid gwybodaeth a chynngor â nhw, gan gynnwys sefydliadau sy'n gweithredu y tu allan i'w hardal ddaearyddol ei hun, Cymdeithasau Addysgol y Gweithwyr a sefydliadau YMCA a sefydliadau tebyg dramor.
- 3.20 caffael y cyfan neu ran o eiddo, asedau a rhwymedigaethau unrhyw sefydliad elusenol a meddiannu ei weithgareddau, os gall yr **Elusen** gaffael neu feddiannu'r rhain yn gyfreithlon o dan ei **Amcanion** ei hun.
- 3.21 buddsoddi arian yr **Elusen** nad yw'n ofynnol yn syth at ei dibenion mewn unrhyw ffordd y gwél yr Elusen yn briodol yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y gellid eu gosod neu sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
- 3.22 sefydlu is-gwmnïau a busnesau lle yr ystyrir bod hyn yn briodol.
- 3.23 hyrwyddo gwaith ymchwil a chyhoeddi canlyniadau defnyddiol y cyfryw waith ymchwil.

3.24 gwneud unrhyw beth arall o fewn y gyfraith sy'n hyrwyddo neu'n helpu i hyrwyddo'r **Amcanion** neu sy'n ategol neu'n gyflenwol i'r **Amcanion**.

4. BUDDION I AELODAU A LLYWODRAETHWYR

4.1 Bydd incwm ac eiddo'r **Elusen** yn cael eu defnyddio i hyrwyddo ei **Hamcanion** yn unig, ac ni fydd unrhyw ran o'r incwm na'r eiddo yn cael ei thalu neu ei throsglwyddo, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, trwy gyfrwng difidend, taliad bonws neu fel arall drwy gyfrwng elw, i **aelodau** nac i unrhyw **Lywodraethwyr**, ond caiff yr **Elusen**, gydag ewyllys da, wneud taliadau i unrhyw **aelod**, swyddog, **cyflogai** neu **Lywodraethwr** yn yr amgylchiadau canlynol yn unig:

- (a) cydnabyddiaeth ariannol resymol a phriodol i unrhyw unigolyn, heblaw am unigolyn sy'n Llywodraethwr, am unrhyw wasanaethau a ddarparwyd i'r **Elusen**;
- (b) rhent rhesymol a phriodol am eiddo a roddwyd ar osod i'r **Elusen** gan unrhyw unigolyn;
- (c) llog ar arian a fenthycwyd gan unrhyw **aelod** neu **Lywodraethwr** ar gyfradd y flwyddyn nad yw'n fwy na dau y cant (2%) yn llai na chyfradd fenthyca sylfaenol gyhoeddedig Banc Lloegr;
- (ch) ffioedd, taliadau cydnabyddiaeth neu fuddiannau eraill ariannol neu sy'n cyfateb i werth arian i gwmni y gallai **Llywodraethwr** fod yn dal dim mwy na 1/100fed ran o gyfalaf y cwmni hwnnw;
- (d) ad-dalu treuliau parod rhesymol i unrhyw **Lywodraethwr**.

Caiff **aelodau** unigol, gan gynnwys **Llywodraethwyr**, dderbyn buddion elusennol yn rhinwedd buddiolwyr.

4.2 Ni chaiff **Llywodraethwr** dderbyn unrhyw daliad ariannol na budd materol arall (boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) gan yr **Elusen** heblaw:

- (a) fel y crybwyllir yn erthygl 3.9 (cyflogi **Staff**), erthygl 3.15 (**yswiriant indemniad**), erthygl 4.1 (defnyddio incwm ac eiddo'r **Elusen**) ac erthygl 4.3 (taliadau cytundebol);
- (b) indemniad mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir yn briodol wrth gynnal yr **Elusen** (gan gynnwys costau amddiffyniad llwyddiannus i achos troseddol, ond nid yn gyfyngedig i hynny) yn unol ag erthygl 3.16;
- (c) mewn achosion eithriadol, taliadau neu fuddion eraill (ond dim ond gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig y **Comisiwn** o flaen llaw).

4.3 Heblaw fel y crybwyllir yn erthygl 3.9, ni chaiff **Llywodraethwr** fod yn **gyflogai**, ond caiff **Llywodraethwr** neu **unigolyn cysylltiedig** ffurfio contract â'r **Elusen** i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau am daliad neu **fudd materol** arall:

- (a) os oes gwir angen y nwyddau neu'r gwasanaethau ar yr **Elusen**;
- (b) os nad yw natur a lefel y taliad cydnabyddiaeth yn fwy nag sy'n rhesymol mewn perthynas â gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau, a'i fod yn cael ei osod mewn cyfarfod o'r **Cyngor** yn unol â'r gofynion gwrthdaro a amlinellir yn erthyglau 4.4 a 4.5; ac
- (c) os nad oes mwy na lleiafrif o'r **Llywodraethwyr** yn destun contract y mae'r erthygl hon neu erthygl 3.9 yn berthnasol iddo mewn unrhyw **flwyddyn ariannol**.

4.4 Yn amodol ar erthygl 4.5, mae'n rhaid i unrhyw **Lywodraethwr** sy'n dod yn **Llywodraethwr â Gwrthdaro** mewn perthynas ag unrhyw fater:

- (a) ddatgan natur a graddau ei fuddiant yn ystod trafodaethau ynglŷn â'r mater neu cyn i'r trafodaethau hynny ddechrau;
- (b) tynnu'n ôl o'r cyfarfod ynglŷn â'r eitem honno oni bai y caiff ei wahodd yn benodol i aros er mwyn darparu gwybodaeth;
- (c) peidio â chael ei gyfrif yn y cworwm ar gyfer y rhan honno o'r cyfarfod; a
- (ch) thynnu'n ôl yn ystod y bleidlais a pheidio â phleidleisio ar y mater.

4.5 Pan fydd unrhyw **Lywodraethwr** yn **Llywodraethwr â Gwrthdaro**, caiff y **Llywodraethwyr** nad ydynt yn **Llywodraethwr â Gwrthdaro**, os ydynt yn ffurfio cworwm heb gyfrif y **Llywodraethwr â Gwrthdaro** ac yn fodlon bod hynny er budd pennaf yr **Elusen**, trwy benderfyniad a wnaed yn absenoldeb y **Llywodraethwr â Gwrthdaro**, awdurdodi'r **Llywodraethwr â Gwrthdaro**, er gwaethaf unrhyw wrthdaro buddiannau neu ddyletswydd sydd wedi codi neu a allai godi ar gyfer y **Llywodraethwr â Gwrthdaro**, i:

- (a) barhau i gymryd rhan mewn trafodaethau sy'n arwain at wneud penderfyniad a/neu bleidleisio; neu
- (b) ddatgelu i drydydd parti wybodaeth sy'n gyfrinachol i'r **Elusen**; neu
- (c) gymryd unrhyw gamau gweithredu eraill nad ydynt wedi'u hawdurdodi fel arall ac nad ydynt yn golygu bod y **Llywodraethwr â Gwrthdaro** nac **unigolyn cysylltiedig** yn derbyn unrhyw daliad neu **fudd materol** uniongyrchol neu anuniongyrchol (boed hynny gan yr **Elusen** ai peidio); neu
- (ch) ymatal rhag cymryd unrhyw gam sy'n ofynnol i ddileu'r gwrthdaro.

5. ATEBOLRWYDD CYFYNGEDIG

Mae atebolrwydd pob **aelod** wedi'i gyfyngu i £1, sef y swm y mae pob aelod yn ymrwymo i'w gyfrannu at asedau'r **Elusen** os caiff ei dirwyn i ben.

6. GWARANT

Mae pob **aelod** yn addo, os caiff yr **Elusen** ei diddymu tra'i fod yn parhau i fod yn **aelod** neu o fewn deuddeg (12) **mis** wedi hynny, i dalu hyd at £1 tuag at y costau diddymu a'r atebolrwydd a ysgwyddwyd gan yr **Elusen** tra bu'r cyfrannwr yn **aelod**.

7. DIDDYMU

7.1 Os caiff yr **Elusen** ei dirwyn i ben neu ei diddymu a bod unrhyw eiddo'n weddill ar ôl i'w dyledion a'i rhwymedigaethau gael eu talu, ni fydd yr eiddo hwn yn cael ei dalu i'r **aelodau** na'i ddosbarthu yn eu plith. Yn lle hynny, bydd unrhyw eiddo sy'n weddill yn cael ei roi neu ei drosglwyddo i sefydliad neu sefydliadau elusennol eraill sydd ag amcanion sy'n debyg i'r **Amcanion** ac sy'n gwahardd dosbarthu ei incwm a'i eiddo/eu hincwm a'u heiddo ymhlith ei aelodau/eu haelodau i'r un graddau o leiaf ag a osodir ar yr **Elusen** gan yr **erthyglau** hyn. Bydd y **Llywodraethwyr** yn penderfynu pa sefydliadau a fydd yn derbyn yr eiddo ar yr adeg diddymu neu cyn hynny. Os nad yw'n bosibl dosbarthu'r eiddo yn y modd hwn, mae'n rhaid iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer amcanion elusennol eraill.

7.2 Mae'n rhaid i adroddiad terfynol a datganiad o gyfrifon gael eu hanfon at y **Comisiwn**.

8. AELODAETH

8.1 Mae'n rhaid i'r **Elusen** gynnal cofrestr **aelodau**.

8.2 Bydd y categorïau **aelodaeth** fel a ganlyn:

- (a) Unigolion;
- (b) **Canghennau**;
- (c) **Sefydliadau Cyswllt a Phartner**; a
- (ch) **Fforymau Dysgwyr**.

8.3 Caiff y **Cyngor** argymhell i'r **aelodau** y dylai'r **Elusen** sefydlu categorïau **aelodaeth** eraill (gan gynnwys **aelodaeth anffurfiol**), pennu'r breintiau a'r dyletswyddau unigol ar gyfer pob categori aelod a gosod symiau unrhyw danysgrifiadau, heblaw na fydd unrhyw rwymedigaethau tanysgrifio yn berthnasol i **Fforymau Dysgwyr**.

8.4 Caiff y **Cyngor** argymhell i'r **aelodau** bod yr **Elusen** yn dileu categorïau **aelodaeth** presennol.

8.5 Terfynir **aelodaeth** os bydd yr **aelod** dan sylw:

- (a) yn rhoi rhybudd ymddiswyddo **ysgrifenedig** i'r **Elusen**;
- (b) yn marw neu (yn achos **aelod-sefydliad**) yn peidio â bodoli mwyach;

- (c) tri (3) **mis** yn hwyr yn talu'r tanysgrifiad perthnasol (os oes un) (ond, mewn achos o'r fath, caiff yr **aelod** ei adfer ar ôl talu'r swm sy'n ddyledus), heblaw na fydd gan **Fforymau Dysgwyr** unrhyw rwymedigaethau tanysgrifio;
- (ch) yn cael ei ddileu fel **aelod** yn sgil penderfyniad yr **aelodau** i ddileu'r dosbarth **aelodaeth** y mae'r cyfryw **aelod** yn perthyn iddo ac nid yw'r cyfryw **aelod** yn cael ei ailneilltuo i ddsbarth **aelodaeth** arall yn y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** lle y dilëwyd y dosbarth **aelodaeth**; neu
- (d) yn cael ei ddileu fel **aelod** yn sgil penderfyniad y **Cyngor** sy'n credu'n rhesymol nad yw **aelodaeth** barhaus yr **aelod** er pennaf les yr **Elusen**. Caiff y **Llywodraethwyr** wneud penderfyniad o'r fath dim ond ar ôl rhoi gwybod i'r **aelod yn ysgrifenedig** trwy anfon hysbysiad i'w gyfeiriad hysbys diwethaf ac ar ôl ystyried y mater yn unol â gweithdrefnau sy'n ymwneud â hynny a wnaed yn unol ag erthygl 12.10 sy'n rhoi'r hawl i'r **aelod** dan sylw fynychu'r cyfarfod lle y bydd y cyfryw ddileu yn cael ei ystyried gydag un cyfaill neu gynghorydd (os yw'n dymuno), ac yntau wedi cael gwybod am unrhyw honiadau yn ei erbyn ac wedi cael cyfle i wneud cynrychiolaethau a darparu tystiolaeth i wrthbrofi'r honiadau hynny.

8.6 Nid yw **aelodaeth** o'r **Elusen** yn drosglwyddadwy.

8.7 Bydd hawliau'r bobl neu'r sefydliadau sy'n ymwneud â **Fforymau Dysgwyr** yn gysylltiedig ag ymgynghori yn unig ac ni fydd y cyfryw bobl na sefydliadau'n gyfrifol am faterion yr **Elusen** trwy gyfrwng eu **haelodaeth** o'r **Elusen**.

9. CYFARFODYDD CYFFREDINOL

9.1 Mae gan **aelodau** yr hawl i fynychu **cyfarfodydd cyffredinol** naill ai'n bersonol neu (yn achos **aelod-sefydliad**) trwy **gynrychiolydd awdurdodedig** neu **gynrychiolwyr awdurdodedig** sy'n bresennol yn bersonol neu drwy **gyfrwng electronig** neu drwy ddirprwy. Mae'n rhaid i ffurflenni dirprwy gael eu danfon at yr **Ysgrifennydd** o leiaf bedwar deg wyth (48) awr cyn y **cyfarfod cyffredinol**. Gelwir **cyfarfodydd cyffredinol** gan roi o leiaf bedwar ar ddeg (14) **diwrnod clir** o rybudd **ysgrifenedig** sy'n nodi'r busnes sydd i'w drafod.

9.2 Yn ogystal â chynnig y posibilrwydd i'r **aelodau** fynychu'r **cyfarfod cyffredinol** yn gorfforol, caiff y **Cyngor** benderfynu cynnig y posibilrwydd i'r **aelodau** fynychu **cyfarfod cyffredinol** trwy **gyfrwng electronig** mewn lleoliad o bell a phleidleisio ar benderfyniadau trwy **gyfrwng electronig** o leoliad o bell fel y nodir gan y **Cyngor**. Hefyd, caiff y **Cyngor** benderfynu caniatáu i'r **aelodau** sy'n gorfforol bresennol yn y **cyfarfod cyffredinol** bleidleisio trwy **gyfrwng electronig**. At hynny, caiff y **Cyngor** benderfynu cynnig y posibilrwydd i'r **aelodau** gymryd rhan mewn trafodaethau yn y **cyfarfod cyffredinol** trwy **gyfrwng electronig**. Bydd y **Cyngor** yn rheoleiddio'r weithdrefn (dechnegol) a'r gofynion ar gyfer mynychu, pleidleisio a/neu drafod yn electronig.

9.3 Bydd cworwm mewn **cyfarfod cyffredinol** os yw nifer yr **aelodau** sy'n bresennol yn bersonol neu drwy **gyfrwng electronig** neu drwy ddirprwy neu drwy o leiaf un

cynrychiolydd awdurdodedig sy'n bresennol yn bersonol neu drwy **gyfrwng electronig** neu drwy ddirprwy yn ddeugain (40) o leiaf neu bump y cant (5%) o gyfanswm nifer yr **aelodau**, os yw'n llai.

- 9.4 Bydd **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig** lle nad oes cworwm yn cael ei ohirio'n awtomatig ar ôl awr. Os galwyd y cyfarfod gan y **Cyngor**, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod o un ar hugain (21) o **ddiwrnodau**. Mae'n rhaid i'r **Ysgrifennydd** roi gwybod i'r holl **aelodau** o fewn deng (10) **niwrnod** ar ôl y cyfarfod o ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod sydd i'w ailgynnal.
- 9.5 Yn y cyfarfod a ailgynhaliwyd, os nad oes cworwm yn bresennol ugain (20) munud ar ôl yr amser pryd y trefnwyd i'r cyfarfod ddechrau, gall yr unigolion hynny sy'n bresennol yn y cyfarfod yn bersonol neu drwy **gyfrwng electronig** weithredu a gwneud penderfyniadau fel petai cworwm o **aelodau** yn bresennol.
- 9.6 Bydd **cyfarfod cyffredinol** yn cael ei lywyddu gan y **Cadeirydd** neu, os nad yw'r Cadeirydd yn bresennol neu os nad yw'n gallu gwneud neu os yw'n amharod i wneud, yr **Is-gadeirydd** neu, os nad yw'r naill na'r llall yn bresennol nac yn fodlon, **aelod** arall a etholwyd gan y rhai sy'n bresennol.
- 9.7 Heblaw lle y mae'n ofynnol fel arall gan yr **erthyglau** hyn neu'r **Deddfau Cwmnïau**, penderfynir ar bob mater gan fwyafrif o'r pleidleisiau a fwrwyd.
- 9.8 Bydd **aelodau** unigol sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy yn cael un bleidlais ar bob mater a chânt fwrw'r bleidlais honno drwy fod yn bresennol yn bersonol neu drwy **gyfrwng electronig** (yn ôl y digwydd) neu drwy ddirprwy. Bydd gan **aelodau eraill** yr hawl i fwrw nifer y pleidleisiau ar bob mater a bennir yn yr Atodlen i'r **Gorchmynion Sefydlog** a chânt fwrw'r cyfryw bleidlais neu bleidleisiau trwy **gynrychiolydd awdurdodedig** neu **gynrychiolwyr awdurdodedig** sy'n bresennol yn bersonol neu drwy **gyfrwng electronig** (yn ôl y digwydd) neu drwy ddirprwy. Ni fydd gan unrhyw aelod sydd ag ôl-ddyledion o ran talu unrhyw danysgrifiad i'r **Elusen** neu sydd mewn dyled i'r **Elusen** am unrhyw reswm arall yr hawl i bleidlais neu bleidleisiau, nac ychwaith unrhyw **aelod anffurfiol**.
- 9.9 Mae penderfyniad ysgrifenedig a dderbynnir yn unol â **Deddf Cwmnïau 2006** yr un mor ddilys â phenderfyniad a dderbynnir mewn **cyfarfod cyffredinol**.
- 9.10 Mae'n rhaid i'r **Elusen** gynnal **cyfarfod cyffredinol blynyddol** ym mhob **blwyddyn ariannol**.
- 9.11 Mewn **cyfarfod cyffredinol blynyddol**, bydd yr **aelodau**:
- (a) yn cael cyfrifon yr **Elusen** ar gyfer y **flwyddyn ariannol** flaenorol;
 - (b) yn cael adroddiad y **Cyngor** ar weithgareddau'r **Elusen** yn y **flwyddyn ariannol** flaenorol;

- (c) yn nodi ymddeoliad y **Llywodraethwyr** hynny sydd wedi ymddeol ers dyddiad y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** diwethaf neu sy'n ymddeol yn y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu'n union ar ei ôl;
 - (ch) naill ai yn nodi etholiad a/neu benodiad **Llywodraethwyr** sydd wedi cael eu hethol neu eu penodi ers y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** diwethaf neu, os yw hynny am ddigwydd yn y **cyfarfod cyffredinol blynyddol**, yn ethol **Llywodraethwyr** i lenwi swyddi gwag sy'n codi yn unol â'r rheolau sy'n ymwneud ag ethol **Llywodraethwyr Etholedig** a wnaed yn unol ag erthygl 12.9;
 - (d) yn penodi archwilwyr ar gyfer yr **Elusen**;
 - (dd) yn trafod a phenderfynu ar unrhyw faterion polisi, o bosibl;
 - (e) yn ymestyn neu'n creu categorïau **aelodaeth** newydd o bosibl, gan bennu'r breintiau a'r dyletswyddau unigol ar gyfer pob categori **aelod** a gosod symiau unrhyw danysgrifiadau, os argymhellir hynny gan y **Cyngor**;
 - (f) yn dileu categorïau **aelodaeth** presennol o bosibl, os argymhellir hynny gan y **Cyngor**; ac
 - (ff) yn ymdrin ag unrhyw fusnes arall a gyflwynir iddynt gan y **Cyngor**.
- 9.12 Caiff y **Cyngor** alw **cyfarfod cyffredinol** (heblaw am **gyfarfod cyffredinol blynyddol**) ar unrhyw adeg ac mae'n rhaid ei alw o fewn un ar hugain (21) o **ddiwrnodau** os gofynnir iddo wneud hynny gan ugain (20) **aelod** sydd wedi talu'r holl symiau sy'n ddyledus ganddynt hwy neu eu **haelod-sefydliad** (yn achos **cynrychiolwyr awdurdodedig**) i'r **Elusen** neu yn unol ag adran 303 Deddf Cwmnïau 2006.
- 9.13 Bydd y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** yn cael ei gynnal dim hwyrach na naw (9) mis ar ôl diwedd y **flwyddyn ariannol** flaenorol. Fe'i cynhelir yn ne Cymru a gogledd Cymru bob yn ail.
- 9.14 Mae'n rhaid i'r agenda ar gyfer y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** ystyried penderfyniadau ysgrifenedig a diwygiadau ysgrifenedig dilynol a gyflwynir gan **aelodau** neu **gynrychiolwyr awdurdodedig aelod-sefydliadau** i'w hystyried yn y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** sy'n ymwneud â pholisi'r **Elusen**, ond nad ydynt yn ceisio cyfarwyddo'r **Cyngor** neu gyfyngu ar gyflawni ei fusnes cyfreithlon, ar yr amod bod hysbysiad o'r bwriad i gynnig penderfyniad o'r fath a chopi o'r penderfyniad arfaethedig wedi cael eu danfon i'r **Elusen** yn unol â'r amserlen gytunedig a amlinellir yn erthygl 9.15 neu o fewn y cyfryw gyfnod byrrach ag y gallai'r **Cyngor** gytuno arno.
- 9.15 Bydd yr **Ysgrifennydd** yn gwahodd cyflwyno penderfyniadau i'w hystyried yn y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** dim llai na naw deg (90) o **ddiwrnodau clir** cyn dyddiad y **cyfarfod cyffredinol blynyddol**. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu derbyn dim llai na phum deg chwech (56) o **ddiwrnodau clir** cyn dyddiad y **cyfarfod cyffredinol blynyddol**. Mae'n rhaid i ddiwygiadau i'r cyfryw benderfyniadau, yn eu tro, gael eu derbyn dim llai nag un ar hugain

(21) o **ddiwrnodau clir** cyn dyddiad y **cyfarfod cyffredinol blynyddol**. Mae'n rhaid i benderfyniadau a diwygiadau i benderfyniadau:

- (a) gael eu cyflwyno **yn ysgrifenedig** neu drwy **gyfrwng electronig** os yw'r **Elusen** wedi rhoi cyfeiriad post electronig ar ei gwefan i dderbyn cyfathrebiadau gan **aelodau**, ac erbyn y dyddiad priodol fel y nodir uchod;
- (b) cael eu cynnig gan **aelod** sy'n gymwys i fynychu a phleidleisio yn y **cyfarfod cyffredinol** a chael eu heilio gan **aelod** gwahanol sy'n gymwys i fynychu a phleidleisio yn y **cyfarfod cyffredinol**.

9.16 Bydd hysbysiadau ynghylch **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig** yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a natur y busnes sydd i'w gynnal. Ni fydd methiant damweiniol i hysbysu unrhyw **aelod** o gyfarfod neu'r ffaith nad yw unrhyw **aelod** wedi derbyn yr hysbysiad a anfonwyd ato (gan gynnwys **aelod-sefydliad**) ynghylch cyfarfod yn annilysu'r trafodion yn y cyfarfod hwnnw.

9.17 Bydd pob penderfyniad a diwygiad yn cael ei gyflwyno i'r **Cyngor** cyn cael ei roi gerbron **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig**, er mwyn cadarnhau ei fod wedi cael ei gyflwyno'n briodol ac nad yw'n niweidio Egwyddorion neu **Amcanion** yr **Elusen**, fel yr amlinellir uchod. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau lle mae mater yn codi sy'n golygu bod angen cyflwyno penderfyniad brys yn ei gylch yn hwyrach na'r amserlen a amlinellir yn erthygl 9.15 uchod, bydd gan **gadeirydd y cyfarfod** yr awdurdod i gael cymeradwyaeth y **Cyngor** i roi'r cyfryw benderfyniad brys gerbron **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig**. Bydd gan yr unigolyn sy'n llywyddu'r **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu'r **cyfarfod cyffredinol arbennig** hwnnw yn unol ag erthygl 9.6 yr awdurdod i dderbyn y cyfryw benderfyniad brys yn rhan o'r agenda.

9.18 Bydd hysbysiadau ynghylch **cyfarfod cyffredinol blynyddol** neu **gyfarfod cyffredinol arbennig** yn cael eu gwneud **yn ysgrifenedig** ac yn cael eu rhoi'n bersonol neu eu hanfon drwy'r post dosbarth 1af neu 2il ddosbarth neu eu danfon i gyfeiriad hysbys diwethaf neu eu hanfon ar **ffurf electronig** neu, lle mae **aelodau** wedi cydsynio i dderbyn cyfathrebiadau trwy **gyfrwng electronig**, ar ôl postio ar wefan yr **Elusen** at:

- (a) bob **aelod** neu **gynrychiolydd awdurdodedig aelod-sefydliad**;
- (b) unrhyw un o'r unigolion sydd â hawl i fynychu a phleidleisio yn y **cyfarfod cyffredinol** hwnnw; ac
- (c) archwilydd allanol yr **Elusen** ar y pryd.

10. Y LLYWODRAETHWYR/CYNGOR

10.1 Y **Llywodraethwyr**, sef **ymddiriedolwyr** yr **elusen**, sy'n rheoli'r **Elusen** a'i heiddo a'i chronfeydd.

10.2 Bydd y **Cyngor** yn cynnwys:

- (a) hyd at chwech (6) o **Lywodraethwyr Etholedig** o blith yr **aelodau**, a fydd yn cael eu hethol trwy'r Fforymau Rhanbarthol, gan felly sicrhau lledaeniad daearyddol ar y Cyngor;
 - (b) bydd hyd at dri (3) yn **Ddysgwyr-lywodraethwyr**, a **etholwyd** gan ac o blith **Dysgwyr, Canghennau** a **Fforymau Dysgwyr** trwy bleidlais bost neu electronig;
 - (c) bydd hyd at ddau (2) yn **Staff-lywodraethwyr**, a **etholwyd** gan ac o blith y **Staff** trwy bleidlais bost neu electronig;
 - (ch) bydd hyd at un (1) yn **Aelod** unigol, a **etholwyd** gan ac o blith **Aelodau** unigol trwy bleidlais bost neu electronig;
 - (d) hyd at chwech (6) o **Lywodraethwyr Penodedig** a fydd yn cael eu penodi fel y penderfynir gan y **Cyngor** yn unol â'r **Gorchmynion Sefydlog** o bryd i'w gilydd;
 - (dd) hyd at ddau (2) o **Lywodraethwyr Penodedig** a fydd yn cael eu penodi gan y **Cyngor** i gynrychioli **Sefydliadau Cyswllt a Phartner**.
- 10.3 Bydd yr holl etholiadau a phenodiadau y cyfeirir atynt yn erthygl 10.2 yn cael eu cynnal yn unol â rheolau a wnaed at y diben gan y **Cyngor** yn unol ag erthygl 12.9 gan ystyried egwyddorion democratiaeth a'r angen i gynrychioli cymunedau â buddiant, gan gynnwys ardaloedd daearyddol neu ranbarthol Cymru.
- 10.4 Bydd y **Llywodraethwyr** yn gwasanaethu am gyfnod o dair (3) blynedd o ddyddiad eu penodi yn unol â'r **Gorchmynion Sefydlog** a lunnir at y diben hwn gan y **Cyngor** o bryd i'w gilydd.
- 10.5 Ar ôl iddo gael ei ethol/penodi neu ei ailethol/aillenodi, mae'n rhaid i bob **Llywodraethwr** lofnodi datganiad o barodrwydd i weithredu fel **yymddiriedolwr elusen** yr **Elusen** cyn y caiff bleidleisio yn unrhyw gyfarfod o'r **Cyngor**. Mae'n rhaid i bob **Llywodraethwr** ddod yn **Aelod** unigol o'r **Elusen** cyn y caiff bleidleisio yn unrhyw gyfarfod o'r **Cyngor**, os nad yw eisoes felly.
- 10.6 Bydd pob **Llywodraethwr** yn gweithredu er pennaf les yr **Elusen** bob amser wrth gyflawni ei rôl fel **Llywodraethwr** ac, yn unol â hynny, pan fydd yn siarad a phleidleisio ni fydd yn rhwym wrth fandadau a roddir iddo gan unrhyw gorff neu unigolyn arall, p'un a yw'r cyfryw gorff yn **Gangen, Sefydliad Cyswllt a Phartner, Fforwm Dysgwyr, Fforwm Rhanbarthol, aelod-sefydliad** neu unrhyw gorff corfforedig arall.
- 10.7 Cynhelir adolygiad o drefniadau llywodraethu'r **Elusen** ar 1 Ebrill 2023 neu cyn hynny, ac unwaith ym mhob cyfnod o dair (3) blynedd wedi hynny.
- 10.8 Bydd **Llywodraethwr** sy'n ymddeol yn gymwys i gael ei ailethol neu ei ailbenodi. Fodd bynnag, ni chaiff **Llywodraethwr** sydd wedi gwasanaethu am ddau (2) gyfnod olynol, o ba hyd bynnag, gael ei ailethol neu ei ailbenodi am drydydd cyfnod yn olynol, ond gellir ei ailethol neu ei ailbenodi ar ôl cyfnod ysbeidiol o ddwy (2) flynedd o leiaf.

- 10.9 Bydd cyfnod **Llywodraethwr** mewn swydd yn terfynu'n awtomatig:
- (a) os caiff ei anghymhwyso o dan y **Ddeddf Elusennau** rhag gweithredu fel **ymddiriedolwr elusen**;
 - (b) os bydd yn peidio â bod yn gyfarwyddwr trwy gyfrwng unrhyw rai o ddarpariaethau'r **Deddfau Cwmnïau** neu'n cael ei wahardd rhag bod yn gyfarwyddwr gan y gyfraith;
 - (c) os nad yw'n gallu rheoli ei faterion ei hun yn feddyliol neu'n gorfforol;
 - (ch) os bydd yn absennol o dri (3) chyfarfod olynol o'r **Cyngor** heb ganiatâd a bod mwyafrif o'r **Llywodraethwyr** eraill yn gofyn iddo ymddiswyddo;
 - (d) os bydd yn ymddiswyddo trwy roi rhybudd **ysgrifenedig** i'r **Cyngor** (ond dim ond os bydd o leiaf saith (7) **Llywodraethwr** yn parhau i fod mewn swydd);
 - (dd) os caiff ei ddiswyddo trwy benderfyniad y **Cyngor** ar y sail bod y **Cyngor**, yn ôl ei lwyr ddisgresiwn, yn credu bod y **Llywodraethwr** dan sylw wedi dwyn anfri ar yr **Elusen**, ond ceir gwneud y cyfryw benderfyniad dim ond ar ôl i'r **Cyngor** wahodd safbwyntiau'r **Llywodraethwr** dan sylw ac ystyried y mater yng ngoleuni unrhyw safbwyntiau o'r fath a gyflwynir iddo;
 - (e) os caiff ei ddiswyddo trwy benderfyniad yr **aelodau** sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn **cyfarfod cyffredinol** ar ôl i'r **cyfarfod cyffredinol** wahodd safbwyntiau'r **Llywodraethwr** dan sylw ac ystyried y mater yng ngoleuni unrhyw safbwyntiau o'r fath.
- 10.10 Ni fydd diffyg technegol wrth benodi **Llywodraethwr** nad yw'r **Cyngor** yn ymwybodol ohono ar y pryd yn annylsu penderfyniadau a wneir mewn cyfarfod neu drwy benderfyniad ysgrifenedig y **Cyngor**.

11. TRAFODION Y CYNGOR

- 11.1 Mae'n rhaid i'r **Llywodraethwyr** gynnal o leiaf dri (3) chyfarfod bob **blwyddyn**.
- 11.2 Cworwm mewn cyfarfod o'r **Cyngor** yw saith (7) **Llywodraethwr** sy'n bresennol yn bersonol neu drwy **gyfrwng electronig**.
- 11.3 Bydd cyfarfod o'r **Cyngor** yn cael ei gynnal yn bersonol fel arfer oni bai bod y **Cyngor** yn cytuno ar **gyfrwng electronig** addas sy'n caniatáu i'r holl gyfranogwyr gyfathrebu â'r holl gyfranogwyr eraill.
- 11.4 Bydd pob cyfarfod yn cael ei lywyddu gan y **Cadeirydd** neu, os nad yw'r **Cadeirydd** yn bresennol neu os nad yw'n gallu gwneud neu os yw'n amharod i wneud, yr **Is-gadeirydd** neu, os nad yw'r naill na'r llall yn bresennol nac yn fodlon nac wedi'i benodi i'r cyfryw swydd gan y **Cyngor**, **Llywodraethwr** arall a ddewiswyd gan y **Llywodraethwyr** sy'n cymryd rhan ('**cadeirydd y cyfarfod**').

- 11.5 Penderfynir ar bob mater trwy fwyafrif syml o'r pleidleisiau a fwriwyd mewn cyfarfod, ond bydd penderfyniad ysgrifenedig a lofnodwyd gan fwyafrif o'r **Llywodraethwyr** yr un mor ddilys â phenderfyniad a wnaed mewn cyfarfod, heblaw pan fydd o leiaf pump (5) o **Llywodraethwyr** yn gofyn am alw cyfarfod arbennig o'r **Cyngor** i drafod y mater neu'r materion sydd dan sylw yn y cyfryw benderfyniad ysgrifenedig. At y diben hwn, ceir cynnwys y penderfyniad mewn mwy nag un **ddogfen** ac ystyrir ei fod wedi'i dderbyn ar ddyddiad y llofnod olaf.
- 11.6 Heblaw am **gadeirydd y cyfarfod**, y bydd ganddo ail bleidlais neu bleidlais fwrw os bydd nifer gyfartal o bleidleisiau, bydd gan bob **Llywodraethwr** un bleidlais ar bob mater.
- 11.7 Ni fydd diffyg gweithdrefnol nad yw'r **Cyngor** yn ymwybodol ohono ar y pryd yn annilysu penderfyniadau a wneir mewn cyfarfod neu drwy benderfyniad ysgrifenedig y **Cyngor**.
- 11.8 Os bydd nifer y **Llywodraethwyr** yn gostwng islaw saith (7), bydd gan y **Cyngor** yr hawl i:
- (a) benodi **Llywodraethwyr Penodedig** ychwanegol; a/neu
 - (b) alw **cyfarfod cyffredinol** o'r aelodau; a
 - (c) gweithredu i warchod a diogelu asedau'r **Elusen**.

12. PWERAU'R CYNGOR

Yn ogystal ag unrhyw bwerau eraill a nodir yn yr **erthyglau** hyn, mae gan y **Cyngor** y bwerau canlynol wrth weinyddu'r **Elusen**:

- 12.1 penodi (a diswyddo) unrhyw unigolyn (na fydd yn **Llywodraethwr**) i weithredu fel **Ysgrifennydd**;
- 12.2 penodi (a diswyddo) **Cadeirydd, Is-gadeirydd** a swyddogion mygedol eraill o blith eu nifer a phennu eu rolau a'u cyfrifoldebau dirprwyedig unigol;
- 12.3 argymhell i'r **aelodau** newidiadau y dylai'r **Elusen** eu gwneud i sefydlu categorïau **aelodaeth** eraill (gan gynnwys **aelodaeth anffurfiol**), pennu'r breintiau a'r dyletswyddau unigol ar gyfer pob categori **aelod** a gosod symiau unrhyw danysgrifiadau;
- 12.4 argymhell i'r **aelodau** y dylai'r **Elusen** ddileu categorïau **aelodaeth** presennol;
- 12.5 dirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau i bwyllgorau sy'n cynnwys dau (2) neu fwy o unigolion a benodwyd ganddo a phennu cylch gorchwyl, dyletswyddau a phwerau unrhyw bwyllgor o'r fath. Mae'n rhaid i o leiaf un (1) unigolyn ar bob pwyllgor fod yn **Llywodraethwr** ac mae'n rhaid i holl drafodion pwyllgorau gael eu hadrodd i'r **Cyngor** yn brydlon;
- 12.6 gwneud ac, o bryd i'w gilydd, diwygio **Gorchmynion Sefydlog** yn gyson â'r **erthyglau** hyn a'r **Deddfau Cwmniau** i lywodraethu'r trafodion mewn **cyfarfodydd cyffredinol** a gwneud, diwygio a phennu ffurf o ddirprwyo;

- 12.7 gwneud ac, o bryd i'w gilydd, diwygio rheolau yn gyson â'r **erthyglau** hyn a'r **Deddfau Cwmnïau** i lywodraethu eu trafodion a thrafodion pwyllgorau;
- 12.8 gwneud ac, o bryd i'w gilydd, diwygio rheoliadau yn gyson â'r **erthyglau** hyn a'r **Deddfau Cwmnïau** i lywodraethu'r broses o weinyddu'r **Elusen** a defnyddio ei sêl (os oes un);
- 12.9 gwneud neu sefydlu ac, o bryd i'w gilydd, diwygio rheolau a gweithdrefnau ar gyfer ymddeoliad **Llywodraethwyr** ac enwebu ac ethol neu benodi **Llywodraethwyr**;
- 12.10 sefydlu ac, o bryd i'w gilydd, diwygio gweithdrefnau i gynorthwyo i ddatrys anghydfodau neu wahaniaethau o fewn yr **Elusen**; ac
- 12.11 arfer unrhyw bwerau'r **Elusen** nad ydynt wedi'u cadw yn ôl i'r **aelodau**.

13. CANGHENNAU A GRWPIAU ERAILL

- 13.1 Mae'n bosibl y bydd **Canghennau**, a mater i'r **Cyngor** fydd gwneud ac, o bryd i'w gilydd, diwygio canllawiau sy'n llywodraethu'r broses o ffurfio, gweithredu, cynnal a diddymu **Canghennau**, gan ymgynghori ag **aelodau** fel y gwêl yn briodol.
- 13.2 Bydd cynigion i greu canllawiau newydd neu ddiwygio canllawiau presennol yn ymwneud â **Changhennau** yn cael eu dwyn i sylw'r **aelodau**.
- 13.3 Bydd gan unrhyw **Gangen** sy'n cael ei dirwyn i ben gan y **Cyngor** yr hawl i apelio i'r **cyfarfod cyffredinol blynyddol** nesaf a bydd gan gynrychiolwyr y **Gangen** yr hawl i fynychu a siarad yn y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** nesaf a chlywed y rhesymau pam mae'r **Cyngor** o'r farn y dylai'r **Gangen** gael ei dirwyn i ben. Tra y disgwylir penderfyniad y **cyfarfod cyffredinol blynyddol** ar unrhyw apêl, caiff y **Cyngor** fynnu bod holl lyfrau a chronfeydd y **Gangen** yn cael eu gosod yng ngofal un o swyddogion dynodedig yr **Elusen**.
- 13.4 Caiff y **Cyngor**, o bryd i'w gilydd, sefydlu grwpiau astudio arbennig o'r **Elusen** sy'n gweithredu o dan y cyfryw enw ac yn unol â'r cyfryw delerau ag y gwêl y **Cyngor** orau, a chaiff ddirwyn y cyfryw grwpiau i ben pan fydd yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol neu'n briodol.

14. FFORYMAU RHANBARTHOL

Bydd **Fforymau Rhanbarthol** a gyfansoddir fel y cytunir o bryd i'w gilydd gan y **Cyngor**, a gadarnheir yn **ysgrifenedig**. Bydd gan y **Cyngor** y pŵer i amrywio eu nifer o bryd i'w gilydd yn unol ag anghenion yr **Elusen**. Bydd hawliau unigolion neu sefydliadau sy'n ymwneud â **Fforwm Rhanbarthol** yn gysylltiedig ag adrodd neu argymell yn unig, ac ni fydd y cyfryw unigolion na sefydliadau'n gyfrifol am faterion yr **Elusen**, heblaw y bydd gan bob **Fforwm Rhanbarthol** sy'n bodoli o bryd i'w gilydd yr hawl i gyfrannu at enwebu/ethol **Llywodraethwyr Etholedig** os, yn ôl llwyr ddisgresiwn y **Cyngor**, yw unrhyw hawl o'r fath wedi'i hamlinellu mewn rheolau a wnaed yn unol ag erthygl 12.9.

15. COFNODION A CHYFRIFON

- 15.1 Mae'n rhaid i'r **Cyngor** gydymffurfio â gofynion y **Deddfau Cwmnïau**, y **Ddeddf Elusennau** a Memorandwm Ariannol Llywodraeth Cymru ynglŷn â chadw cofnodion ariannol a chofnodion eraill, archwilio cyfrifon yn annibynnol, a pharatoi a throsglwyddo'r canlynol i'r Cofrestrwydd Cwmnïau, y **Comisiwn** a Llywodraeth Cymru:
- (a) datganiadau blynyddol;
 - (b) adroddiadau blynyddol; a
 - (c) datganiadau cyfrifon blynyddol.
- 15.2 Mae'n rhaid i'r **Cyngor** gadw cofnodion priodol o'r canlynol:
- (a) yr holl drafodion mewn **cyfarfodydd cyffredinol**;
 - (b) yr holl drafodion yng nghyfarfodydd y **Cyngor**;
 - (c) holl adroddiadau pwyllgorau; a'r
 - (ch) holl gyngor proffesiynol a gafwyd.
- 15.3 Mae'n rhaid sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu sy'n ymwneud â'r **Elusen** ar gael i'w harchwilio gan unrhyw **Lywodraethwr** ar unrhyw adeg yn ystod oriau swyddfa arferol, a cheir eu harchwilio gan **aelodau** nad ydynt yn **Llywodraethwyr** os yw'r **Cyngor** yn penderfynu felly.
- 15.4 Mae'n rhaid cyflenwi copi o ddatganiad cyfrifon diweddaraf yr **Elusen** i unrhyw **Lywodraethwr** neu **aelod** ar gais. Mae'n rhaid cyflenwi copi hefyd o fewn un ar hugain (21) o **ddiwrnodau clir** i unrhyw unigolyn arall sy'n gwneud cais **ysgrifenedig** ac sy'n talu costau rhesymol yr **Elusen**.

16. Y DULL CYFATHREBU I'W DDEFNYDDIO

- 16.1 Yn amodol ar yr **erthyglau** hyn, caiff unrhyw beth a anfonir neu a gyflenwir gan yr **Elusen** neu a anfonir ati neu a gyflenwir iddi o dan yr **erthyglau** hyn gael ei anfon neu ei gyflenwi mewn unrhyw ffordd a ddarperir gan y **Deddfau Cwmnïau** ar gyfer **dogfennau** neu wybodaeth y mae unrhyw un o ddarpariaethau'r **Deddfau Cwmnïau** yn awdurdodi neu'n mynnu eu bod yn cael eu hanfon neu eu cyflenwi gan yr **Elusen** neu eu hanfon ati neu eu cyflenwi iddi, a bydd y darpariaethau cyfathrebiadau cwmni yn y **Deddfau Cwmnïau** yn berthnasol i unrhyw beth a anfonir neu a gyflenwir o dan yr **erthyglau** hyn.
- 16.2 Ystyrir bod cyfathrebiad a anfonwyd neu a gyflenwyd gan yr **Elusen** wedi cael ei dderbyn gan y derbynydd bwriadedig:
- (a) os yw'n cael ei anfon drwy'r post, bedwar deg wyth (48) awr ar ôl iddo gael ei bostio;

- (b) os yw'n cael ei ddanfon â llaw, ar adeg y cyfryw ddanfoniad;
- (c) os yw'n cael ei anfon ar **ffurf electronig**, yn union ar ôl iddo gael ei anfon; ac
- (ch) os yw ar gael ar wefan, pan fydd yr hysbysiad ynghylch presenoldeb y cyfathrebiad ar y wefan wedi cael ei dderbyn gan y derbynnydd bwriadedig neu, os yw'n hwyrach, y dyddiad pan ymddangosodd y cyfathrebiad ar y wefan.

- 16.3 Yn achos cyfathrebiad a anfonwyd neu a gyflenwyd gan yr **Elusen**, caiff yr **Elusen** sicrhau bod y **dogfennau** neu'r wybodaeth ar gael ar wefan yn unol â'r **Deddfau Cwmnïau**.
- 16.4 Yn amodol ar yr **erthyglau** hyn, caiff unrhyw hysbysiad neu **ddogfen** sydd i'w anfon/hanfon at **Lywodraethwr** neu ei gyflenwi/chyflenwi i **Lywodraethwr** mewn cysylltiad â gwneud penderfyniadau gan y **Cyngor**, hefyd gael ei anfon/hanfon neu ei gyflenwi/chyflenwi trwy'r dull y gofynnodd y **Llywodraethwr** i'r cyfryw hysbysiadau neu **ddogfennau** gael eu hanfon ato neu eu cyflenwi iddo am y tro.
- 16.5 Caiff **Llywodraethwr** gytuno â'r **Elusen** y dylid ystyried bod hysbysiadau neu **ddogfennau** a anfonwyd at y **Llywodraethwr** hwnnw mewn modd penodol wedi cael eu derbyn o fewn amser penodol o'u hanfon, ac i'r amser a bennwyd fod yn llai na phedwar deg wyth (48) awr.

17. DIWYGIADAU

Ceir diwygio'r **erthyglau** hyn trwy benderfyniad gan yr **aelodau** a wnaed yn unol â'r **erthyglau** hyn a'r **Deddfau Cwmnïau** ar yr amod na cheir diwygio erthygl 2 (**Amcanion**), erthygl 4 (Buddion i **aelodau** a **Llywodraethwyr**) ac erthygl 7 (Diddymu) heb gydsyniad y **Comisiwn** o flaen llaw, ac na cheir diwygio'r erthygl hon.

18. INDEMNIAID

Bydd yr **Elusen** yn indemnio pob **Llywodraethwr** (fel cyfarwyddwr) yn erbyn unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir ganddo yn y rhinwedd honno i'r graddau a ganiateir gan y **Deddfau Cwmnïau**.

19. DEHONGLI

- 19.1 Yn yr **erthyglau** hyn, oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu ystyr arall:

'aelod' ac 'aelodaeth' ac 'aelod-sefydliad'	yw aelodaeth o'r Elusen sy'n cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: aelodau unigol, Canghennau , Sefydliadau Cyswllt a Phartner a Fforymau Dysgwyr , ac 'aelod-sefydliad' yw unrhyw gorff corfforedig sy'n aelod o bryd i'w gilydd;
'aelod anffurfiol' ac 'aelodaeth anffurfiol'	yw cefnogwr y ceir ei alw'n "aelod" ac a gaiff dderbyn cyfathrebiadau gan yr Elusen ond nad yw'n aelod o'r Elusen yn unol ag erthygl 8.2;

'Amcanion'	yw Amcanion yr Elusen fel y'u diffinnir yn erthygl 2;
'ardal buddiant'	yw Cymru;
'blwyddyn'	yw blwyddyn galendr;
'blwyddyn ariannol'	yw blwyddyn ariannol yr Elusen ;
'budd materol'	yw budd nad yw'n ariannol, o bosibl, ond sydd â gwerth ariannol;
'Cadeirydd' ac 'Is-gadeirydd' a 'chadeirydd y cyfarfod'	yw cadeirydd y Cyngor a'r Elusen o bryd i'w gilydd a'i ddirprwy, a 'chadeirydd y cyfarfod' yw'r ystyr a ddiffinnir yn erthygl 11.4;
'Cangen' a 'Changhennau'	yw grŵp ffurfiol o bobl sy'n cefnogi nodau ADDYSG OEDOLION CYMRU ADULT LEARNING WALES ac sy'n dod at ei gilydd ar sail ddaearyddol, gweithle neu rithwir i gynllunio rhaglen o weithgareddau dysgu a chymdeithasol, a sefydlwyd yn unol ag erthygl 13;
'Comisiwn'	yw Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr;
'cyfarfod cyffredinol arbennig'	yw cyfarfod cyffredinol arbennig o'r Elusen o bryd i'w gilydd;
'cyfarfod cyffredinol blynyddol'	yw cyfarfod cyffredinol blynyddol yr Elusen ;
'cyfarfodydd cyffredinol'	yw cyfarfodydd cyffredinol blynyddol a chyfarfodydd cyffredinol arbennig , fel y'u cynullir o bryd i'w gilydd;
'Cyngor'	yw corff llywodraethu'r Elusen , sef y Llywodraethwyr o bryd i'w gilydd;
'cynrychiolydd awdurdodedig' a 'chynrychiolwyr awdurdodedig'	yw unigolyn neu unigolion a awdurdodwyd gan aelod-sefydliad i weithredu ar ei ran yng nghyfarfodydd yr Elusen ac arfer y bleidlais neu'r pleidleisiau a ddelir gan y cyfryw aelod ac y mae ei enw(au) wedi cael ei roi/eu rhoi i'r Ysgrifennydd ;
'Deddf Cwmniau 2006'	yw Deddf Cwmniau 2006, fel y bo mewn grym ar ddyddiad mabwysiadu'r erthyglau hyn ac fel y'i diwygir neu y'i haildeddfir o bryd i'w gilydd wedi hynny;

'Deddf Elusennau'	yw Deddf Elusennau 2011;
'Deddfau Cwmniau'	yw'r Deddfau Cwmniau (fel y'u diffinnir yn Neddf Cwmniau 2006) i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r Elusen ;
'diwrnod' a 'diwrnod clir'	yn ôl eu trefn, yw cyfnod o bedair awr ar hugain (24); a diwrnodau a gyfrifir o un diwrnod i'r llall (ac eithrio'r diwrnod cyntaf ac olaf);
'dogfen'	mae hyn yn cynnwys, oni nodir fel arall, unrhyw ddogfen a anfonir neu a gyflenwir ar ffurf electronig ;
'Dysgwr/Dysgwyr'	yw unigolyn sydd wedi'i gofrestru fel dysgwr ar gronfa ddata dysgwyr yr Elusen ar gyfer y flwyddyn academaidd dan sylw;
'Elusen'	yw'r cwmni a lywodraethir gan yr erthyglau hyn;
'erthyglau'	yw erthyglau cymdeithasu'r Elusen ;
'Etholedig' ac 'a Etholir/Etholwyd'	yw'r Llywodraethwyr a etholir i'r Cyngor o dan erthyglau 10.2(a) i 10.2(ch) yn gynwysedig;
'Fforwm/Fforymau Dysgwyr'	yw grwpiau ffurfiol neu anffurfiol o Ddysgwyr a chefnogwyr dysgu sy'n cyfarfod ar lefel cymuned, undeb llafur neu weithle i gymryd rhan mewn penderfynu ar eu rhaglen ddysgu. Mae angen i Fforymau Dysgwyr fod wedi'u cofrestru i gymryd rhan mewn Fforymau Rhanbarthol a chyfarfodydd cyffredinol . Caiff Fforymau Dysgwyr eu galw eu hunain yn 'Glybiau' neu'n 'Hybiau', a fydd yn meddu ar yr un categori aelodaeth ;
'Fforwm/Fforymau Rhanbarthol'	yw'r hyn a ddiffinnir yn erthygl 14;
'ffurf electronig' a 'chyfrwng electronig'	mae gan ffurf electronig yr ystyr a roddir yn adran 1168 Deddf Cwmniau 2006 a bydd cyfrwng electronig yn cael ei ddehongli yn unol â hynny;
'Gorchmynion Sefydlog'	yw'r gorchmynion sefydlog, rheolau a'r gweithdrefnau sydd mewn grym ar gyfer yr Elusen o bryd i'w gilydd;
'Llywodraethwr'	yw un o gyfarwyddwyr yr Elusen a ' Llywodraethwyr ' yw'r cyfarwyddwyr gyda'i gilydd neu'r cyfryw nifer o gyfarwyddwyr sydd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli cworwm

	mewn cyfarfod o'r Llywodraethwyr a gynullwyd ac a gynhaliwyd yn briodol;
'Llywodraethwr â Gwrthdaro'	yw Llywodraethwr y mae gwrthdaro buddiannau yn codi mewn perthynas ag ef neu y gallai godi'n rhesymol oherwydd bod y cyfryw unigolyn neu unigolyn cysylltiedig yn derbyn neu mewn sefyllfa i dderbyn budd (heblaw am dalu premiwm ar gyfer yswiriant indemniad) gan yr Elusen , neu y mae ganddo fuddiant neu ddyletswydd ar wahân mewn mater sydd i'w benderfynu, neu mewn perthynas â gwybodaeth sy'n gyfrinachol i'r Elusen ;
'masnachu trethadwy'	yw cynnal masnach neu fusnes yn bennaf er mwyn codi arian ac nid er mwyn cyflawni'r Amcanion mewn gwirionedd, y mae ei helw/elw yn ddarostyngedig i dreth gorfforaeth;
'mis'	yw mis calendr;
'Penodedig' ac 'a Benodir'	yw'r Llywodraethwyr a benodwyd i'r Cyngor o dan erthyglau 10.2(d) a 10.2(dd);
'Rhanbarthau'	yw rhaniad daearyddol o fewn yr ardal buddiant fel y'i diffinnir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd, a bydd 'Rhanbarth' yn cael ei ddehongli yn unol â hynny;
'Sefydliadau Cyswllt a Phartner'	yw'r ystyr a ddiffinnir yng Ngorchmynion Sefydlog yr Elusen ;
'Staff' a 'chyflogai'	yw unigolion a gyflogir gan yr Elusen ar yr adeg dan sylw, boed hynny'n academaidd (a gyflogir yn bennaf fel tiwtor) neu'n gymorth busnes (yn gweithio mewn swyddfa yn bennaf);
'unigolyn cysylltiedig'	o ran Llywodraethwr , yw unrhyw briod, partner sifil, partner, rhiant, plentyn, brawd, chwaer, tad-cu, mam-gu, ŵyr neu wyres i'r Llywodraethwr hwnnw, unrhyw gwmni y mae'r Llywodraethwr hwnnw'n aelod neu'n gyflogai ohono, ac unrhyw gwmni y mae'r Llywodraethwr hwnnw'n gyfarwyddwr, cyflogai neu randdeiliad ynddo sydd â buddiant buddiol mewn mwy nag un y cant (1%) o'r cyfalaf cyfranddaliadau;
'ymddiriedolwr elusen'	yw'r ystyr a bennir gan adran 177 y Ddeddf Elusennau;

'ysgrifenedig' ac 'yn ysgrifenedig'	yw dogfen ddarllenadwy ar bapur neu ar ffurf electronig ;
'Ysgrifennydd'	yw'r unigolyn (os oes un) a benodir gan y Llywodraethwyr yn ysgrifennydd yr Elusen neu'r cyfryw unigolyn arall sy'n cyflawni swyddogaethau ysgrifennydd;
'yswiriant indemniad'	yw yswiriant yn erbyn atebolrwydd personol a ysgwyddir gan unrhyw Lywodraethwr am weithred neu anwaith sy'n gyfystyr â thor-ymdiriedaeth neu dor-ddyletswydd, neu yr honnir ei fod felly, oni bai bod y Llywodraethwr dan sylw yn gwybod hynny, neu'n ddiotal ynghylch p'un a oedd y weithred neu'r anwaith yn dor-ymdiriedaeth neu'n dor-ddyletswydd.

- 19.2 Mae gan fynegiadau a ddiffinnir yn **y Deddfau Cwmnïau** yr un ystyr, oni bai bod yr **erthyglau** hyn yn nodi fel arall.
- 19.3 Mae cyfeiriadau at Ddeddf Seneddol yn cyfeirio at y Ddeddf fel y'i diwygiwyd neu ei haildeddfwyd o bryd i'w gilydd ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wnaed oddi tani.